



PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL
LOCAL NATURE PARTNERSHIPS
CYMRU



Partneriaeth Natur Lleol Caerdydd

Cylchlythyr - Ebrill 2020

Croeso i rifyn cyntaf cylchlythyr Partneriaeth Natur Lleol (PNL) Caerdydd. Gobeithio y bydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi am brosiect PNLI Cymru a rôl PNL Caerdydd. Mae gennym hefyd rywfaint o wybodaeth am rai o'r gweithgareddau yr ydym yn eu cynllunio ar ôl codi'r cyfyngiadau symud a diweddariad ar Wythnos Natur Cymru eleni.



Project Partneriaethau Natur Lleol Cymru

Caiff project PNLI Cymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru tan fis Ebrill 2022.

Caiff y project ei reoli trwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) gyda chymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) a'r Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol (SEWBReC dros Gaerdydd).

Nodau'r project;

- Sefydlu rhwydwaith Cymru gyfan o Bartneriaethau Natur Lleol.
- Datblygu Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur (CGAN) lleol ym mhob ardal awdurdod lleol/parc cenedlaethol.

- Hyrwyddo gwerth adfer natur.
- Helpu i integreiddio nodau Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddatblygu polisïau lleol a chenedlaethol.
- Ehangu cyfranogiad a buddsoddiad ym mhroject Partneriaethau Natur Lleol Cymru yn lleol ac yn genedlaethol.

PNL Caerdydd

Cyn cyflwynwyd y cyfyngiadau symud, roeddem yn bwriadu cynnal digwyddiad lansio ar gyfer PNL Caerdydd ddechrau mis Mehefin. Byddai hyn wedi rhoi cyfle i gyflwyno rhai o'n syniadau ar gyfer projectau a gweithgareddau eleni a chasglu eich sylwadau, eich awgrymiadau a'ch syniadau. Bydd y lansiad bellach yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn y cyfamser, dyma grynoded o'r cynnydd a wnaed gennym hyd yn hyn.



Grŵp llywio - Ar ôl cael cyngor gan dîm project PNLI Cymru, rydym yn cynnig y dylai PNL Caerdydd gael ei chyfeirio a'i chefnogi gan Grŵp Llywio. Bydd aelodau'n

cynrychioli sefydliadau sy'n ymwneud â chadwraeth natur ar draws y ddinas.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y Cynghorydd Bob Derbyshire wedi derbyn y gwahoddiad i gadeirio'r Grŵp Llywio. Mae'r sefydliadau a wahoddwyd i fod yn aelodau wedi'u rhestru isod:

WCVA, PBC, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, RSPB, Buglife Cymru, Plantlife Cymru, SEWBRc, Cymdeithas Ddinesig Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Clwb Adar Morgannwg.



Partneriaeth Ehangach - Bydd grwpiau 'cyfeillion' lleol, grwpiau cymunedol, sefydliadau, busnesau, gwirfoddolwyr ac unigolion â diddordeb yn ffurfio'r bartneriaeth ehangach ac yn ymgymryd â phrojectau a gweithgareddau er mwyn helpu i gyflawni amcanion y CGAN lleol. Hyd yma, mae dros 25 o grwpiau ac unigolion wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â'r bartneriaeth.

Cydlynnydd PNL - Mae'r project yn ariannu cydlynnydd PNL rhan-amser ym mhob awdurdod lleol a pharc cenedlaethol yng Nghymru.

Rôl y cydlynnydd PNL fydd cynhyrchu CGAN lleol a chydlynu a chofnodi gwaith PNL Caerdydd er mwyn cyflawni amcanion y CGAN lleol. Bydd y cydlynnydd hefyd yn cysylltu â thîm project PNLI Cymru a Phartneriaethau Natur Lleol eraill ledled Cymru i rannu syniadau ac arfer gorau a chwilio am gyfleodd ar gyfer gweithio

mewn partneriaeth a phrojectau traws-finiol.

Projectau ar gyfer 2020/2021

Mae cyllideb fach wedi'i dyrannu i bob PNL i hyrwyddo a chefnogi digwyddiadau a gweithgareddau'r partneriaethau. Darparwyd arian grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/2021 trwy Gronfa Gyfalaf '**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**'.



O dan y pennawd grant '**Gwyrddio'r Stad Cyngor**', dyrannwyd arian i Bartneriaeth Natur lleol Caerdydd i ddatblygu project 'muriau gwyrdd' ar gyfer adeiladau'r Cyngor mewn ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael. Bydd planhigion dringo'n cael eu tyfu mewn cynwysyddion ym meithrinfa'r Cyngor i'w gosod wedyn mewn dau o adeiladau'r Cyngor.



Bydd project gwyddor dinasyddion yn cael ei ddatblygu gyda'r gymuned leol i fonitro newidiadau mewn ansawdd aer a bioamrywiaeth yn y lleoliadau a ddewiswyd. Caiff y canlyniadau eu defnyddio i lywio unrhyw brojectau muriau gwyrdd yn y dyfodol o amgylch y ddinas.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am fonitro

ansawdd aer i greu rhestr fer o leoliadau posibl ac rydym wedi gofyn i staff meithrinfa Parc Bute weld a ellir caffael y planhigion a'r offer angenrheidiol yn ystod y cyfyngiadau symud sydd ohoni.

O dan y pennawd grant **'Twf Amgylcheddol ar Garreg eich Drws'** dyrannwyd arian i Bartneriaeth Natur Leol Caerdydd i brynu offer, planhigion a hadau i wella'r broses o reoli dolydd a chreu a gwella ardaloedd o blannu planhigion i bryfed peillio ledled y ddinas.



Caiff gweithdai adnabod bywyd gwyllt eu trefnu ar gyfer staff, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol, ac fe brynir offer a chyfarpar arolygu i gefnogi rhaglen gydlynol o waith arolygu i fonitro rhywogaethau a chynefinoedd allweddol. Caiff y data ei ddefnyddio i gefnogi a gwella arferion rheoli a nodi cyfleoedd i wella cysylltedd rhywogaethau a chynefinoedd.



Newyddion am Wythnos Natur Cymru

Bydd Wythnos Natur Cymru yn parhau i gael ei chynnal eleni o 30 Mai tan 7 Mehefin. Gan ei bod yn debygol y bydd cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol yn

dal i fod ar waith, mae syniadau ar gyfer ymgysylltu â natur yn yr ardd neu'r man gwyrdd agosaf yn cael eu datblygu. Hyd yn hyn, mae'r rhain yn cynnwys 'bioflits' gardd dyddiol, sgysiau 'holi'r arbenigwr' ar-lein a fideos 'sut i greu cynefinoedd'.

Bydd ein cylchlythyr nesaf yn rhoi manylion y rhaglen derfynol a sut y gallwch gymryd rhan.

Os hoffech rannu unrhyw syniadau sydd gennych ar gyfer gweithgareddau bywyd gwyllt y gallir eu cyflawni wrth ymbellhau'n gymdeithasol neu os ydych yn gwybod am unrhyw sefydliadau sy'n cynnal projectau yn ystod y 'cloi mawr', rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda.

Wythnos Ymwybyddiaeth Draenogod 3-9 Mai

Gellir dod o hyd i wybodaeth am ddraenogod a syniadau ar gyfer gwneud eich gardd neu eich mannau gwyrdd lleol yn fwy deniadol i ddraenogod ar y gwefannau canlynol;

www.hedgehogstreet.org

www.britishhedgehogs.org.uk

Gall rhywbeth mor syml â gwneud twll yn eich ffens ardd neu eich gât helpu draenogod i ddod o hyd i fwy o fwyd i'w fwyta a lle diogel i nythu.



I ddathlu Wythnos Natur Cymru, byddwn yn rhoi 30 o farcwyr tyllau ffens i ddraenogod. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Eich adborth

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r cylchlythyr hwn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o'r erthyglau neu

os hoffech ymuno â rhestr bostio PNL
Caerdydd, cysylltwch â Sam Eaves
(Cydllynydd y Bartneriaeth Natur Leol) yn
Biodiversity.Team@caerdydd.gov.uk

Bydd y cylchlythyr nesaf yn cael ei
gyhoeddi ddiwedd mis Mai. Os hoffech
gyfrannu erthygl neu rannu rhywfaint o
newyddion, anfonwch y manylion erbyn
dydd Mercher 20 Mai.

Byddwch yn ofalus ac yn ddiogel!